



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Chwaraeon Cymru

**Penodi hyd at bedwar Aelod o'r
Bwrdd**

Dyddiad Cau: 22 Mai 2019



**The Commissioner for
Public Appointments**

CHWARAEON CYMRU

Cynnwys

Gwneud Cais

Atodiad A: Rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru

Atodiad B: Swyddogaeth Aelod o'r Bwrdd

Atodiad C: Y broses ddethol

CHWARAEON CYMRU

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb i gael eich penodi'n Gadeirydd Chwaraeon Cymru. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl y Cadeirydd a manyleb y person, ac yn manylu hefyd rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd Aelod o'r Bwrdd ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith.

Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen i gofrestru ar system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru, a thrwy wneud, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill yr ydych yn eu hanfon, drwy'ch cyfrif.

Ar ôl cofrestru, byddwch yn gallu gweld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir yn y manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, ceisiwch roi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb â'r meini prawf ac sydd hefyd yn disgrifio'r hyn a wnaethoch wrth gyflawni canlyniad penodol. Byddech yn helpu'r panel dethol hefyd pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer cyffredin.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

| | |
|--------------------|------------------|
| Dyddiad cau: | 22 Mai 2019 |
| Llunio rhestr fer: | 10 Mehefin 2019 |
| Cyfweliadau: | 10 Gorffennaf 12 |
| Penodi: | 2 Medi 2019 |

Noder; bydd angen i bwy bynnag sy'n cael eu recriwtio fod ar gael ar y dyddiadau canlynol:

Dydd Mercher 4ydd Medi - Diwrnod Cynefino i'r Bwrdd, Canolfan Chwaraeon Genedlaethol Cymru, Caerdydd.

CHWARAEON CYMRU

9fed-10fed Medi - Cyfarfodydd bwrdd yn cael eu cynnal ym Mhlas Menai, ger Caernarfon.

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodau byrddau cyrff cyhoeddus adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – a chynnwys pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl ac i wneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anabledau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn gyfle ichi nodi unrhyw anghenion neu offer penodol y gallai fod ei angen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

Manylion Cyswllt:

Am ragor o wybodaeth am rôl Chwaraeon Cymru a rôl ei Aelodau, cysylltwch â Pippa Britton (is-gadeirydd) e-bost pippa.britton@sport.wales

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus - penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rôl a chyfrifoldebau Chwaraeon Cymru

Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon a ffyrdd egnïol o fyw. Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Chwaraeon Cymru, ac fe'i hariennir yn bennaf trwy gymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am ddsbarthu cyllid o'r Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Sefydlwyd Chwaraeon Cymru ym 1972 drwy Siarter Frenhinol. Y pedwar amcan a nodwyd pan sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (a adwaenir bellach fel Chwaraeon Cymru) yw :

- Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol;
- Codi safonau mewn perfformiad a rhagoriaeth;
- Gwella'r ddarpariaeth o ran cyfleusterau chwaraeon;
- Darparu gwybodaeth a chyngor technegol am chwaraeon, hamdden a ffyrdd egnïol o fyw.

I weld y Siarter Frenhinol, cliciwch yma: www.sport.wales/media/128780/royal_charter.doc

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn berchen ar ddwy ganolfan genedlaethol; Athrofa Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd a Chanolfan Genedlaethol Chwaraeon Dŵr Plas Menai yn y Gogledd.

Mae blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad Chwaraeon Cymru yn seiliedig ar lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ac maent yn ymateb iddo. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ei flaenoriaethau strategol, unrhyw bolisiâu a chynlluniau gweithredol penodol, ynghyd â pholisiâu a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwlad sy'n gorfforol egnïol ac sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, yn unol â'r strategaethau Dringo'n Uwch a Creu Cymru Egnïol.

Nod Chwaraeon Cymru yw gwella lefel y gyfranogaeth mewn chwaraeon ar lawr gwlad ond gan roi'r gefnogaeth y mae ei hangen hefyd ar athletwyr uchelgeisiol i gystadlu'n llwyddiannus ar lwyfan y byd.

Mae polisiâu a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru i'w gweld yn Ffyniant i Bawb (<http://gov.wales/topics/businessandconomy/welsh-economy/economic-action-plan/?lang=cy>) ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gyda'i gilydd, nhw sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer sefydlu nodau Chwaraeon Cymru, ac maen nhw'n ei gwneud yn ofynnol iddo integreiddio'i holl waith er mwyn cefnogi'r saith nod llesiant, yn ogystal â phum elfen lywodraethu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

CHWARAEON CYMRU

Yn 2017, comisiynwyd Adolygiad o Chwaraeon Cymru gan y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am y maes ar y pryd. Yr Adroddiad <http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/sportandactivererecreation/sport-wales/sport-wales-review/?skip=1&lang=cy> ac [ymateb y Gweinidog](http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/sportwalesresponse/?skip=1&lang=cy) <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/sportwalesresponse/?skip=1&lang=cy>

oedd y sail i Chwaraeon Cymru ddatblygu [Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru](#), a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2018.

Bydd Chwaraeon Cymru yn lansio eu strategaeth newydd yn fuan a bydd y Cadeirydd a'r Bwrdd yn canolbwyntio ar gyflawni'r strategaeth, cydweithio gyda partneriaid allweddol a rhanddeiliaid ledled Cymru.

Cewch wybod mwy am Chwaraeon Cymru drwy fynd i www.chwaraeon.cymru.

AELODAU BWRDD CHWARAEON CYMRU

Bwrdd Chwaraeon Cymru sy'n arwain ac yn llywodraethu Chwaraeon Cymru ac yn gwneud y gwaith pwysig o graffu ar holl fuddsoddiadau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru. Y Bwrdd hefyd sy'n pennu amcanion y dyfodol.

Bydd Aelodau'r Bwrdd yn atebol yn unigol ac ar y cyd i Lywodraeth Cymru drwy'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Mae disgwyl i aelodau:

- Ddeall a mynd ati i hyrwyddo manteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'u manteision positif i gymdeithas amrywiol Cymru, yn unol â gweledigaeth Chwaraeon Cymru fel y corff sy'n cyflawni polisiau y Llywodraeth ar chwaraeon.
- Gallu herio staff Chwaraeon Cymru yn effeithiol, i sicrhau eu bod yn bodloni eu hamcanion, eu nodau a'u targedau perfformiad;
- Sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn cael gwerth am arian ac yn cyfrannu yn y broses cynllunio corfforaethol, gan gynnwys cytuno ar gynlluniau cyllido blynyddol;
- Gweithredu mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel mewn meysydd gan gynnwys gwarchod cyllid cyhoeddus; a gwerthfawrogi neu gael dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfrifoldeb gorfforaethol a rheoli risg i sicrhau bod gweithgareddau Chwaraeon Cymru yn cael eu cynnal yn effeithiol ac effeithlon;
- Holi cwestiynau, sgiliau gwrandao da a'r gallu i ddeall sefyllfaoedd/adroddiadau cymhleth;
- Cymryd rhan wrth awgrymu aelodau y bwrdd a'r genhedlaeth nesaf o aelodau'r bwrdd;
- Bod yn barod ac ymrwymo i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chymryd rhan ynddynt a gweithgareddau allweddol rhwng cyfarfodydd;
- Deall ac ymrwymo i swydd gyhoeddus, fel a ddiffinnir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan a nodir ar dudalen 9.

CHWARAEON CYMRU

MANYLEB Y PERSON

Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i gydweithio ag eraill i gyflawni amcanion.
- Y gallu i feddwl yn rhesymol ac yn wrthrychol a dadansoddi gwybodaeth gymhleth er mwyn nodi'r prif broblemau a gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Dangos ymrwymiad i gynyddu lefelau gweithgarwch gorfforol ledled Cymru;
- Dealltwriaeth o gymunedau amrywiol Cymru ac ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth.
- Dealltwriaeth o fywyd cyhoeddus ac egwyddorion llywodraethu da

Y Gymraeg

Mae Sgiliau Iaith Gymraeg yn cael eu hystyried yn '**ddymunol**' am o leiaf dri o swyddi Aelod o'r Bwrdd, ar y lefel a nodir isod:

Dealltwriaeth - Yn gallu deall sgysiau elfennol am bynciau bob dydd
Darllen - yn gallu darllen a deall deunydd syml ar bynciau bob dydd
Siarad - Yn gallu cynnal sgwrs elfennol
Ysgrifennu Cymraeg - yn gallu ysgrifennu negeseuon elfennol ar bynciau bob dydd

Mae hyn yn golygu y byddai'n fantais i ymgeisydd pe bai'n gallu deall a siarad rhannau o sgwrs elfennol yn y Gymraeg cyn belled â'i fod wedi bodloni'r holl feini prawf hanfodol eraill.

Telerau'r Penodiad

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a fydd yn penodi'r Cadeirydd ar ran Llywodraeth Cymru. Fel arfer, bydd y penodiadau'n para am gyfnod o dair blynedd, a gellir ailbenodi am gyfnod arall o dair blynedd. Adolygir perfformiad Aelodau'r Bwrdd bob blwyddyn gan y Cadeirydd.

Cyfarfodydd y Bwrdd

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd mewn mannau gwahanol ar hyd a lled Cymru. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cyfarfod o leiaf bum gwaith y flwyddyn, gydag o leiaf ddau o'r cyfarfodydd hynny yng Nghaerdydd. Staff Chwaraeon Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd hefyd nifer o weithgorau a phaneli cynghori.

Pwy sy'n gymwys

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, rhaid i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a allai achosi embaras iddyn nhw neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys ar ôl iddynt gael eu penodi.

CHWARAEON CYMRU

Dylai ymgeiswyr hefyd nodi bod eistedd ar fwrdd Chwaraeon Cymru yn golygu na allant ddod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a hynny yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwys) 2010.

Ymrwymiad Amser

Bydd disgwyl i'r Aelodau fod ar gael i weithio am o leiaf 2 ddiwrnod y mis (er bod rhan fwyaf yr aelodau yn rhoi mwy o amser na hyn).

Tâl

Telir £282 y dydd i Aelodau'r Bwrdd. Ceir hawlio costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill a ysgwyddir wrth ymgymryd â gwaith y Bwrdd oddi wrth Chwaraeon Cymru o fewn y terfynau cydnabyddedig. Mae'n bosibl y byddwch hefyd yn gymwys i hawlio ad-daliad ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol, tra byddwch yn gweithio ar ran y Bwrdd.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod o Fwrdd Chwaraeon Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yn Chwaraeon Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gadw at 7 egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan): <https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life>

Hyfforddiant Cynefino

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fynd i sesiwn gynefino ffurfiol yn Chwaraeon Cymru.

Y BROSES DDETHOL

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'ch datganiad i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad gofynnol. Dylech sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Lawrence Conway, Cadeirydd Chwaraeon Cymru, a bydd hefyd yn cynnwys David Rosser, Prif Swyddog Rhanbarthol, Deddwyrain Cymru.

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru a Lowri Morgan aelod annibynnol o'r panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn iddo gael ei roi i'r panel i lunio rhestr fer. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod Mehefin 2019 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad rhwng 10-12 Gorffennaf 2019.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Ond os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad a'ch bod yn bodloni meini prawf gofynnol hanfodol y swydd, yna cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ac na fydd dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch ddod i'r cyfweiliad ar y diwrnod hwnnw, gwnawn ein gorau i'w aildrefnu ond efallai na fydd hynny'n bosibl oherwydd cyfyngiadau'r amserlen benodi neu oherwydd na fydd y panel dethol ar gael.

Fe gewch e-bost gan y system Penodi i roi gwybod ichi a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal cyfweiliadau yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd. CF11 9SW.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu. Bydd cyfnod o amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd ymgeiswyr a gaiff eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses benodi.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi yn Aelod o Fwrdd Chwaraeon Cymru, a bydd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynniig ichi.

CHWARAEON CYMRU

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod yn rhaid wrth gryn ymdrech ac amser i ymgeisio am swyddi a bod cael adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ar - penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus - penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru